k · Bible - Appendix

# ANIANYDDIAETH YSGRYTHYROL;

YN CYNNWYS

DESGRIFIAD O'R PEDWAR-CARNOLION, ADAR, YMLUSG-IAID, TRYCHFILOD, PYSGOD, PLANIGION, COEDYDD, MEINI GWERTHFAWR, A METTELOEDD,

CRYBWYLLEDIG YN

## YR YSGRYTHYRAU SANTAIDD.

GYDA DARLUNIADAU.

LLUNDAIN:
CYMDEITHAS Y TRAETHODAU CREFYDDOL;
*Sefdlwyd*, 1799.
AR WERTH YN YR YSTORDY, 56, PATERNOSTER ROW,
A 65, ST. PAUL'S CHURCHYARD; A CHAN Y
LLYFR-WERTHWYR

(1848)

Digitized by Google

brenines yr Aipht. Yr oedd addurniadau ifori hefyd yn gyffredin y'mysg y Rhufeiniaid yn amser dechreuad y cyfrif Cristionogol. Yn Ezec. xxvii. 6, dywedir fod meinciau llongau Tyrus wedi eu gwneud o (hyny yw, wedi eu gwisgo, neu eu haddurno ag) ifori. Gwel hefyd Amos iii. 15, a vi. 4.

Dynolryw y'mhob oes a gymerant lawer o drafferth i ddofi elephantiaid, a gwedi eu dwyn unwaith dan awdurdod, y maent efallai, y mwyaf dôf a hydrin o'r holl anifeiliaid. Arferwyd llawer arnynt gynt mewn rhyfeloedd, a gwelwyd cynifer a saith ugain wedi eu ffurfio yn un fyddin-res. Dan ymerawdwyr Rhufain, dangosid hwy yn fynych mewn gorymdeithiau budd-ugol, ac yn y campau cyhoeddus. Yn y dyddiau hyn, defnyddir hwy yn fynych yn yr India, gan y brodorion ac Ewropiaid, i hela y bwystfilod ysglyfaethus mwyaf. Mae hanesyn credadwy am swyddog Prydeinaidd, a farchogai elephant, wrth hela llew. Pan yn gogwyddo i danio ar lew oedd wedi ei archolli eisioes, trôdd yr ystrodur, a dymchwelwyd ef dros ben yr elephant, i safn y bwystfil ffyrnig. Y llew a ruthrodd iddo, a gwnaethai ben am dano yn ddioed, oni buasai i'r elephant, drwy ei gymell gan y gŷrwr, ddyfod y'mlaen, er yn ddychrynedig iawn, ac ymaflyd â'i ddiryn y'mrig coeden, a'i phlygu i lawr ar draws llwynau y llew, a'i orfodogi i ollwng ei afael. Achubwyd y swyddog felly, ond yr oedd ei fraich wedi tori mewn dau fan, a'i ddwyfron a'i ysgwyddau wedi eu crafangu yn dost.

## Y RHINOCEROS.

TREFNID.—*Pachydermata*, neu, Pedwar-troedogion tew-groen.

MAE amrywiol fathau o rhinoceros i'w cael yn yr India, ac ynysoedd Java a Sumatra, a hefyd yn Affrica. Yr elephant yn unig sydd yn rhagori mewn maintioli ar rhinoceros ungorn yr India, ac mewn nerth nid yw yn ol i un creadur arall. Mae, o leiaf, yn ddeuddeg troed-fedd o hyd, chwech neu saith o uchder, a'i amgylchedd agos yn ogymaint a'i hyd. Yr hyn a'i gwahaniaetha yn benaf oddiwrth greaduriaid eraill yw yr offeryn

hynod sy ganddo ar ei drwyn, oddiwrth yr hwn y mae ei enw yn deilliaw, yn gyfansoddedig o ddau air Groeg (*rin*, trwyn, a *keras*, corn, hyny yw, trwyn-gorn.) Mae y corn hwn yn dra chaled, ac yn sylweddol drwyddo, ac fe'i gwelwyd weithiau yn bedair troedfedd o hyd. Cafwyd mwy nag un rhywogaeth yn Affrica ac iddynt ddau gorn, y naill y tu ol i'r llall, ac yn llai na haner ei hyd. Er hyny, dywed un teithiwr fod yr Arabiaid yn galw y rhinoceros, *abu-kurn*, hyny yw, "tad yr un corn;" a dywed teithiwr arall, fod yn y wlad oddiar Sennaar rhinoceros ungorn, y rhydd y duantwys* iddo yr enw o "fam yr un corn." Dichon mai yr un creadur y cyfeirir ato gan y ddau deithiwr.

Y rheswm am ddwyn i fewn i'r gwaith hwn sylw ar y rhinoceros, yw, fod llawer o feirniaid enwog yn tybied mai yr anifel hwn yw yr un a elwir *unicorn*, † yn ol ein cyfieithiad ni, mewn amryw fanau o'r Ysgrythyr. Ond nid oes dim yn y gair Hebraeg *reem*, Job xxxix. 9, yn arwyddo fod yr anifel yn ungorniawg; mae yn wir y sonir am dano fel yn gorniawg, ond mae yr unig fan sydd yn hollawl eglur ar y pwnc yn amlwg ddangos fod iddo ddau gorn: "Ei gyrn ef sydd gyrn unicorn," Deut. xxxiii. 17. Efallai mai yr achos i'r cyfieithwyr Seisnig ddodi y gair yn lliosog *(unicorns)* oedd fod y briodoliaeth o gyrn yn ymddangos yn anghyson â'r enw unigol (unicorn, *reem)* fel y mae yn wreiddiol yn y fan yma. Yr ail le yw Salm xxii. 21, "Cyrn unicorn-iaid," *(remim)* yr hyn a âd y pwnc heb ei benderfynu. Y trydydd lle yw Salm xcii. 10, "Fy nghorn i a ddyrchefir fel unicorn." Pe dodid y gair *corn* i fewn yma, fel yn y cyfieithiad Saesonaeg, byddai genym y'mron gystal sail i gasglu mai un corn sy gan y *reem*, ag sy genym oddiwrth y testun cyntaf a nodwyd i farnu bod iddo ddau: ond dylem ystyried nad yw beth anghyffredin mewn prydyddiaeth, nac ychwaith mewn ymddyddan sathredig, i sôn am *gorn* anifel sydd yn meddu mewn gwirionedd ddau gorn, ond nid am *gyrn* creadur nad oes iddo ond un. Tebygol, gan hyny, mai yr ŷch gwyllt, neu ryw gyffelyb anifel a feddylir. Mae yn

* Negroaid, dynion duon. † Sef, uncorn, neu unig-gorn.

beth cynnaliad i'r dybiaeth hon fod y *reem* yn cael ei enwi mewn cysylltiad âg anifeiliaid eraill o rywogaeth yr ŷch, yn Esa. xxxiv. 7: "A disgyn yr unicorniaid gyda hwynt, a'r bustych gyda'r teirw." Mae yr iaith a ddefnyddir yn Job xxxix. 9—12, megys yn arwyddo ei fod yn anifel tebyg i'r rhai a arferir i drin tir, ond ei fod yn wyllt ac anhawdd ei ddofi. Dywedir am "lwyth o Arabiaid yn byw mewn pebyll, fod ganddynt fueloedd mawrion o dda corniog, ac yn eu mysg liaws o fuail, neu ychen gwylltion. Maent yn rhywogaeth wahanol i'r rhai a enwir felly, ag sydd yn crwydro hyd anialdiroedd America. Maent yn gyffredin iawn yn yr Aipht, lle eu cedwir er mwyn eu llaeth a'u llafur: ceir hwynt hefyd yn yr Ital., yn enwedig yn y morfeydd rhwng Rhufain a Naples. Anifeiliaid gwagelog, drwg yr olwg, a drygnaws, ydynt. Diammheuol eu bod gynt yn Palestina, er ond odid mewn cyflwr gwyllt, neu heb eu darostwng i lafur, fel y maent yn Abyssinia hyd heddyw. Gan fod y creadur hwn yn adnabyddus yn Palestina, nid oes ond ychydig le i ammheu mai efe yw *reem* yr Ysgrythyrau Hebraeg, yn lle yr hwn y dodwyd yr unicorn ffugiol yn y cyfieithiadau hen a diweddar."*

## Y MORFIL.†

TREFNID.—*Cetacea.*

MAE math o greaduriaid â'u haelodau blaen wedi eu llunio yn gyffelyb i rodlau,‡ ac y maent yn byw yn y dwfr yn unig. Nid oes iddynt aelodau ôl, ac y mae y gynffon yn ymledu yn fath o rwyf. Mae y morfil yn angraifft o'r creaduriaid hyn. Mae ganddynt ddwy galon, neu galon a dau gylla, a gwaed coch cynhes, megys y *mammalia* oll. Yn eu hasgyrnygiad nid oes ond ychydig gyffelybrwydd i bysgod. Gellid cymeryd ysgrud morfil, neu forhwch, megys yn perthynu i ryw greadur pedwar-carnol; ond y rhanau hyny i bedwar-carnolion a ffurfiant y traed blaen a orchuddir â chig a

* ROBINSON'S *Biblical Researches,* iii. 305, 360.

† *Neu,* morfarch; ll. morfeirch. Gen. i. 21. ‡ *Saes.* Paddles,



Digitized by Google